## GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG

**184 – Rheoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020**
*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 14 Hydref 2020*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Nac ydy |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amh |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amh |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amh |
| Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C: | Papur 93 |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amh |
| Gweithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adrannau 8 ac 8C o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 7 o Atodlen 4 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno.

**Crynodeb**

Mae'r Rheoliadau hyn:

- yn gweithredu Protocol Iwerddon/Gogledd Iwerddon ("y Protocol") trwy ddiwygio neu ddirymu 16 o'r 17 offeryn Ymadael â'r UE ym maes bwyd a diogelwch bwyd i fod yn gymwys i Brydain Fawr yn unig, ac offerynnau ychwanegol a wnaed mewn perthynas â Gogledd Iwerddon;

- yn mynd i'r afael ag ystod o ddiffygion sy'n weddill yng nghyfraith yr UE a ddargedwir ym maes hylendid a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid i sicrhau y gall cyfraith yr UE a ddargedwir weithredu'n effeithlon ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu, ac i gymryd i ystyriaeth cyfraith yr UE sydd wedi dod i rym ers i'r offerynnau Ymadael â'r UE gael eu gwneud.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**
Mae gwall teipograffydol yn enw'r Rheoliadau hyn yn y datganiad  (mae "etc." wedi'i hepgor).  Nodir bod yna Reoliadau 2019 gyda'r un enw â'r un a ddefnyddir yn y datganiad, hynny yw heb "etc.".

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 16 Hydref 2020 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**
Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.